Ysgol Gymraeg Llangennech

Maes y Dderwen, Llangennech, SA14 8YB
andersong7@hwbmail.net
http://www.ysgolgymraegllangennech.cymru

Annwyl rieni,

Mae'n gyfnod eithriadol o heriol i ni fel ysgol wrth i ni geisio cynllunio ein darpariaeth newydd o Fehefin 29ain yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf. Er hyn, rydym yn awyddus iawn i weld yr holl blant yn dychwelyd am gyfnod bach cyn gwyliau'r Haf. Mae cant a mil o bethau i'w trefnu - i bob pwrpas, rydym yn gorfod creu 'ysgol newydd' mewn pythefnos. Dwi'n sicr eich bod yn disgwyl yn eiddgar am ein cynlluniau ond yn anffodus, ni fydd hynny yn bosibl nes i ni dderbyn y wybodaeth llawn a therfynol gan yr Awdurdod Lleol. Ein bwriad fel ysgol yw cyhoeddi ein cynllun diwedd wythnos nesaf.

Er hynny, dyma syniad i chi o sut byddwn yn gweithredu wedi i ni ail-agor ar Fehefin 29ain: Bydd asesiadau risg a chynlluniau trylwyr yn eu lle er mwyn i ni fedru gwneud ein gorau glas i leihau'r risg o Covid-19. Mae'n bwysig nodi na fyddwn yn gallu dileu pob risg - nodir hyn yn glir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru 'Mewn ysgolion cynradd, rydym yn cydnabod nad yw'n ymarferol disgwyl i ddysgwyr gynnal pellter cymdeithasol cyson o ddau fetr.'

- Rydym yn anelu at gynnig tua dau ymweliad dydd i bob plentyn CA2 heb ddim mwy na 6 o blant mewn ystafell ddosbarth. Ni fydd dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen yn mynychu sesiynau am y pythefnos cyntaf oherwydd ein bod yn gorfod glynu at y rheolau niferoedd cyfyngedig. Bydd plant yn cael eu rhoi mewn grwpiau gyda phlant o'u dosbarth. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar sicrhau bod disgyblion o deuluoedd yn mynychu eu swigod ar yr un diwrnod.
- Bydd mynedfeydd gwahanol i ddisgyblion wrth gyrraedd a gadael yr ysgol.
- Bydd y plant yn golchi eu dwylo yn y toiledau yn syth ar ôl cyrraedd. Bydd y plant yn golchi eu dwylo yn rheolaidd yn ystod eu hamser yn ôl yn yr ysgol.
- Ni chaniateir rhieni i mewn i adeilad yr ysgol.
- Lle bo hynny'n bosibl, bydd system unffordd o amgylch yr ysgol a bydd staff yn monitro coridorau i sicrhau bod y plant yn cadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd.
- Bydd plant yn cael eu hannog yn gadarnhaol i gadw pellter o 2m oddi wrth ei gilydd. Bydd posteri ac arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn atgoffa disgyblion o hyn.
- Bydd un plentyn ar y tro yn gallu defnyddio'r toiled.
- Bydd gweithdrefnau glanhau a hylendid cynhwysfawr ar waith trwy gydol y dydd - gan gynnwys glanhau arwynebau, dolenni drysau, toiledau ac ati yn ystod y dydd.
- Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio adnoddau eu hunan, ond ni chaniateir iddynt rannu'r rhain.
- Am weddill y tymor hwn ni fydd darpariaeth clwb brecwast na darpariaeth cinio poeth - Bydd yn rhaid i blant ddod â chinio pecyn i'r ysgol. Yna byddant yn bwyta'r rhain yn eu hystafelloedd dosbarth. Byddwn yn gorfodi polisi llym DIM CNAU ar safle ysgol gan fod ambell ddisgybl ag alergedd cnau.

- Bydd egwyl i ddisgyblion chwarae y tu allan, a byddant yn gwneud hyn yn eu grŵp mewn rhan benodol o'r maes chwarae. Byddwn yn atgoffa'r plant yn aml i gadw pellter cymdeithasol.
- Nid oes disgwyl i'r staff ddefnyddio offer amddiffynnol personol (PPE) wrth ymgymryd â gweithgareddau addysgol arferol mewn ystafelloedd dosbarth / ysgol. Os yw aelod o staff yn dymuno gwisgo PPE, yna caniateir hynny. Bydd PPE ar gael i staff ymgymryd â thasgau lle nad yw pellter cymdeithasol yn bosibl e.e. gofal personol neu gymorth cyntaf ac ati.
- Bydd 'ystafelloedd ynysu' pwrpasol yn yr ysgol os yw plentyn yn arddangos symptomau Covid-19.
- Gofynnwn mai dim ond 1 rhiant sy'n gollwng ac yn casglu eu plentyn o'r ysgol. Gofynnwn ichi gadw pellter o 2m bob amser.

Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chi dros y pythefnos nesaf wrth i ni gwblhau ein trefniadau. Bydd y sesiynau yn yr ysgol yn canolbwyntio ar les ac iechyd y plant. Bydd yn athrawon hefyd yn paratoi'r prosiectau dysgu ar-lein bob pythefnos.

Yr wythnos nesaf, gan ddechrau Mehefin 18fed, byddwn ni fel staff cyfan yn yr ysgol, yn paratoi'r ystafelloedd, yn symud dodrefn, yn hongian posteri, yn paentio llinellau ac ati. Hoffwn bwysleisio mai eich dewis chi yw anfon eich plentyn yn ôl i'r ysgol a minnau yn deall y gallai hwn fod yn benderfyniad anodd i lawer ohonoch. Fel pennaeth a rhiant, byddaf yn parchu eich penderfyniad - y naill ffordd neu'r llall! Rwy'n anelu at gael gwybodaeth fanylach i chi tua diwedd yr wythnos nesaf gyda'n cynlluniau terfynol er mwyn i chi wneud penderfyniad gwybodus. Yn dilyn hyn, gofynnaf ichi gwblhau holiadur arall i nodi a fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol cyn gwyliau Haf ai peidio.

Diolch am eich cydweithrediad. Cadwch yn ddiogel!

Cofion,

Gary Anderson